

Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom	Marc Wyn Jones Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024	0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddHinsawdd@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

Cyfarfod cyhoeddus (09.30–11.00)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.30)

2 Craffu Cyfnod 1 Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(09.30–11.00)

Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Chris Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Etifeddiaeth Mwyngloddio a Diogelwch Cronfeydd Dŵr – Llywodraeth Cymru

Madeline Rees, Cyfreithwraig – Llywodraeth Cymru

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Memorandwm Esboniadol (yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol)



3 Papurau i'w nodi (11.00)

3.1 Datgarboneiddio tai

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â datgarboneiddio tai

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â datgarboneiddio tai

3.2 Craffu ar Trafnidiaeth Cymru

(Tudalennau 3 – 4)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at James Price, Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â chraffu blynyddol ar Trafnidiaeth Cymru

3.3 Llifogydd yng Nghymru

(Tudalennau 5 – 9)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Andrew RT Davies at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymatebion Llywodraeth Cymru i brofiadau a chanlyniadau Storm Dennis (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Heledd Fychan AS at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â llifogydd yng Nghymru (Saesneg yn unig)

3.4 Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

(Tudalennau 10 – 11)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

3.5 Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

(Tudalennau 12 – 13)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau y DU

3.6 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Ynni Prydain Fawr

(Tudalennau 14 – 17)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn cysylltiad ag adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn (11.00)

Cyfarfod preifat (11.00–12.00)

5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

(Tudalennau 18 – 28)

Dogfennau atodol:

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Saesneg yn unig)

7 Ystyried llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas ag ynni, chynllunio a thrafnidiaeth

(Tudalennau 29 – 32)

Dogfennau atodol:

Llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas ag ynni, chynllunio a thrafnidiaeth (Saesneg yn unig)

8 Ystyried llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth

(Tudalennau 33 – 37)

Dogfennau atodol:

Llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth (Saesneg yn unig)

9 Ystyried adroddiad drafft ar atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

(Tudalennau 38 – 85)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft ar atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 (Saesneg yn unig)

10 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor – gwanwyn 2025

(Tudalennau 86 – 91)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen waith – Gwanwyn 2025 (Saesneg yn unig)

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

31 Hydref 2024

Annwyl Jayne,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor hwn wedi ymddiddori'n fawr mewn datgarboneiddio tai yn ystod y Senedd hon.

O dilyn eich penodiad diweddar yn Ysgrifennydd Cabinet, teimlaf ei bod amserol ysgrifennu atoch i ofyn am eich blaenoriaethau yn y maes polisi hwn. Yn benodol, byddwch yn ymwybodol i'ch rhagflaenydd roi i Grŵp Gweithredu ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol y dasg o baratoi trywydd ar gyfer datgarboneiddio'r stoc tai presennol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am statws y grŵp a'ch cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen â'i waith. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe byddech yn ymrwymo i gyhoeddi trywydd y Grŵp a'ch ymateb iddo.

Gobeithiaf y byddwn yn gallu eich gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor maes o law i drafod y maes polisi pwysig hwn ymhellach. Yn y cyfamser, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 28 Tachwedd fan bellaf

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

28 Tachwedd 2024

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am fy mlaenoriaethau ar gyfer datgarboneiddio tai, yn enwedig statws y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio a chyhoeddi map llwybr.

Mae sylfeini ein polisi ar ddatgarboneiddio tai wedi'u nodi i raddau helaeth yn y Strategaeth Gwres, a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf. O ystyried y synergedd rhwng cynllun gweithredu arfaethedig y sector preswyl i gefnogi'r Strategaeth a map llwybr ar gyfer datgarboneiddio tai, rydym wedi penderfynu cyhoeddi un ddogfen yn gynnwys ym mhob rhan y Gwanwyn.

Daeth gwaith y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio i ben ym mis Ebrill, a rydym yn adolygu ein trefniadau ynghylch grwpiau rhanddeiliaid. Cawsom fap llwybr arfaethedig gan Gadeirydd y Grŵp a rydym wedi bod yn ystyried ei gynnwys ochr yn ochr ag argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth i ni gwblhau ein map llwybr a'n cynllun gweithredu ar gyfer y sector preswyl.

Yn y cyfamser, rydym yn cyflwyno cyfres o bolisiau i weithredu effeithlonrwydd ynni, gwresogi carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer datgarboneiddio drwy ein grantiau i landlordiaid cymdeithasol, ein cynllun Cartrefi Cynnes Nyth a'n cynllun benthyciadau Cartrefi Gwyrdd Cymru a lanswyd yn ddiweddar, a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 2.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

James Price

Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

26 Tachwedd 2024

Ymweliad y Pwyllgor ar 7 Tachwedd

Annwyl James,

Ysgrifennaf ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ddiolch i chi a staff Trafnidiaeth Cymru (TrC) am groesawu ein hymweliad diweddar â Depo Metro TrC a'r Ganolfan Rheoli Seilwaith yn Ffynnon Taf.

Mwynhaodd y Pwyllgor y daith o amgylch y cyfleusterau a'r sgysiau â Dan Tipper a staff eraill TrC – roedd y rhain yn addysgiadol a byddant yn bwysig i'n gwaith parhaus wrth graffu ar Lywodraeth Cymru ym maes trafnidiaeth yng Nghymru.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd ddefnyddio'r cyfle hwn i gymryd camau dilynol mewn perthynas ag argymhellion o'n hadroddiad ar wasanaethau rheilffyrdd a pherfformiad Trafnidiaeth Cymru 2023-24, y cytunodd TrC i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad arnynt ym mis Tachwedd 2024.

- **Argymhelliad 6.** Dylai TrC ddiweddarau'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf ar y cynnydd o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach a gwella amrywiaeth yn y gweithlu.
- **Argymhelliad 11.** Dylai TrC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf am y cynnydd tuag at y targed o 95% o deithiau ar drenau newydd erbyn diwedd 2024.
- **Argymhelliad 12.** Dylai TrC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad ei adolygiad o wasanaethau ac amserlenni rheilffyrdd o fewn y chwe mis nesaf.
- **Argymhelliad 14.** Rhaid i TrC wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn ystod digwyddiadau mawr. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y camau y mae wedi'u cymryd yn hyn o beth.

- **Argymhelliad 20.** Dylai TrC ddarparu diweddariad o fewn chwe mis ar y cynnydd mewn perthynas â'i waith gyda Chydbwyllgorau Corfforaethol (Corporate Joint Committees - CJC) a'r Gronfa Teithio Llesol (ACT).

Edrychwn ymlaen at gael diweddariadau i'r argymhellion uchod, yn ogystal â diweddariadau ar y cynlluniau Metro, cyflwyno'r Unedau Tram newydd, a buddsoddiad ehangach i ddatblygu gwasanaeth rheilffordd gwell i bobl Cymru.

Gyda diwedd tymor yr hydref yn agosáu, bydd clercod y Pwyllgor mewn cysylltiad i drefnu dyddiad addas ar gyfer ein sesiwn graffu flynyddol nesaf.

Cofion cynnes,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Llyr Gruffydd MS
Chair of the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

0300 200 6565 

@andrewrt.davies 

@AndrewRTDavies 

/AndrewRTDaviesAM 

Via email: llyr.gruffydd@senedd.wales

25th November 2024

Our ref: ARTD/JM

Dear Llyr,


Following the devastating flooding across Wales over the weekend, and in particular Rhondda Cynon Taf in my electoral region of South Wales Central, I am writing to ask the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee to undertake an inquiry into the Welsh Government and relevant agencies' responses to the experiences and aftermath of Storm Dennis in 2020.

I would like to ask the Committee to investigate the following:

1. What actions were recommended following Storm Dennis to improve the Welsh Government and all relevant agencies' future responses?
2. How these recommendations informed the Welsh Government and its relevant agencies' strategies in preparation for and in response to Storm Bert?

As I am sure you will agree, it is essential that the people of Wales have full confidence in the Welsh Government's ability to respond effectively to such incidents and the destruction that it causes in communities. I would urge the committee to undertake this vital exercise to gain answers for those affected by the devastation of Storm Bert across Wales.

With kind regards,



Andrew RT Davies MS
Leader of the Welsh Conservatives

27 November 2024

Pwnc | Subject: Support for flooded communities in South Wales Central

Dear Deputy First Minister,

As you will be aware, Storm Bert left its mark on many of the communities I represent in South Wales Central. A significant number of homes and businesses were devastated by flooding, many for the second, third and fourth time since 2020. People are devastated, and many are also angry.

Questions are again being asked why no independent inquiry took place after the floods of 2020. People are also angry that progress has been slow, or non-existent in some instances. Lessons that should have been learnt after they were last flooded were not heeded resulting in many experiencing the same issues and frustrations as they did when previously flooded namely:

- receiving flood warnings via Natural Resources Wales once water was already in their home or business;
- not receiving sandbags prior to being flooded, and not able to get through on the phone to ask for sandbags when they saw the water rising and knew they were likely to flood;
- being denied flood gates and/or barriers and being told they were unlikely to flood again (despite other people on the same street receiving flood gates and having far less damage in their properties, or no flooding at all this time.)

Most homes flooded are covered by insurance, and I have been proactive in recent years in making everyone in my region aware of the Flood Re scheme. However, as you are aware, there is no such scheme for businesses – something which I've raised countless times with the Welsh Government since being elected to the Senedd in 2021.

I have met with the Association of British Insurers on this matter and would ask that Welsh Government explores effective and immediate options to support businesses who are in this position. Where there is no mitigating flood alleviation works planned and we know there are businesses that are uninsured, there should be a Welsh Government business support scheme in place to ensure these businesses can recoup their losses and furnished in a way that minimises damage.

The First Minister stated in a news interview with Newyddion on 25.11.24 in relation to support for businesses who can't get insurance: *"Yn amlwg mi fydd rhaid i ni weld beth fyddwn ni'n gallu ei wneud iddyn nhw o ran helpu nhw gyda yswiriant a pethau felly, ond bydd rhaid cael y trafodaeth yna gan y Llywodraeth a gweld beth allwn ni wneud"* (Translates to: *"Obviously we will have to see what we can do for them in terms of helping them with insurance and things like that, but we will have to have that discussion from the Government and see what we can do".*)

Can you please clarify what the First Minister meant in relation to helping with insurance so that I can share with the businesses that have been in touch with me? One business estimates that they have lost circa £25,000 worth of stock, and I'm sure that many others will be in a similar situation.

But even for those covered by insurance, the trauma of what's happened will stay with them and they will be fearful every time it rains heavily that they will be flooded again. Greater support is needed for at risk communities, and I would be grateful if you could also provide answers to the following questions:

1. How will residents and business owners be able to access flood protection measure such as building adaptations, flood gates, electrical rewiring for future proofing etc and who should they contact to be assessed for these measures so that they can receive the ones most suitable for them?
2. What progress has been made on the recommendations set out in Professor Elwen Evans KC's Review of Local Government Section 19 and Natural Resources Wales' reports into extreme flooding in Wales, 2020-21?
3. Does Natural Resources Wales now have enough staff and budget to undertake their duties in relation to flood prevention? I note that their review into the 2020 floods stated the following: *"Delivering key improvements to the service will require adequate support in both funding and resources and those discussions will continue with the Welsh Government. It is roughly estimated that 60-70 additional members of staff are needed over the long term to sustain the overall service and to address the actions set out in our flood review. Additional resources will also be required to address the recommendations made to reduce flood risk as set out in the land management review."*¹

How has this recommendation been addressed? I'd be grateful if you could please outline how many staff they had in February 2021 and how many they have now working on addressing the actions set out in the review and also outline the budget made available to them in every consecutive budget since then? One resident has been told by a NRW member of staff that there has been a decrease in terms of staff and budget since 2021 – complete transparency on this is essential.

4. What support is being made available to take a whole community approach to flood prevention and mitigation? Taking Pontypridd as an example, are there plans to develop a plan for the town centre as a whole, and nearby streets such as Berw Road and Sion Street? Currently, every home and every business on an individual basis is looking into protective measures and trying to access funding. Will the Welsh Government commit to funding a holistic approach?
5. The First Minister has said that thousands of homes were saved as a result of investment made since 2020, and yesterday in plenary, you stated that hundreds had been saved. Whilst I very much hope that is the case as the funding was part of the Cooperation Agreement, will you publish the data which evidences this please as it will help businesses and residents in terms of insurance premiums if this information is made publicly available? And if you don't have the information yet, please can you outline when this will be available and be mindful of the messaging in the meantime? I worry that we are giving communities who are at risk a false sense of security with such sweeping statements, unless they can be evidenced.

During Storm Dennis (2020), South Wales experienced intense, short-duration rainfall with severe impacts. For example, 130.4mm of rain fell in 24 hours at Nant yr Ysfa, equivalent to 72% of a month's rainfall, while Tyn-Y-Waun recorded 132.4mm in 24 hours (62% of a month's rainfall).

River Taffat Pontypridd saw a peak flow of 805 m³/s, the highest on record, causing extensive flooding, with 2,765 properties affected across South Wales.

February 2020 followed months of persistent wet weather, meaning ground conditions were already saturated, worsening flooding impacts.

Storm Bert (2024) produced higher cumulative rainfall over 48 hours (171.6mm recorded at Tyn-Y-Waun) but spread over a longer duration, reducing peak intensity and the immediate risk of flooding.


Provisional data suggests lower peak river flows during Storm Bert compared to Storm Dennis, contributing to fewer properties flooded (200–300 in RCT).

While flood defences may have played a role in reducing property impacts during Storm Bert, the lower flood intensity, drier antecedent ground conditions, and longer rainfall duration were significant factors. The Welsh Government's claims overlook these hydrological differences and do not provide evidence of flood defence performance under conditions comparable to Storm Dennis.

6. The National Flood Forum is paid to support several communities in Wales and is very effective at supporting communities. However, the funding they receive is sporadic and normally short-term. Whilst Natural Resources Wales has information on the website in terms of community resilience, they do not have capacity to support flood action groups in every at-risk community in Wales. There is also a question regarding if this is a role they should play, as they are not seen as a neutral party by communities that suffer flooding. Will the Welsh Government commit to working with the National Flood Forum on the establishment of a Welsh Flood Forum, as has happened in Scotland? I would be very happy to facilitate a meeting between the National Flood Forum and work with relevant officers to explore how we could take this proposal forward, as Hefin David did when he was commissioned to undertake the Transitions to Employment Report.
7. Taking Clydach Terrace as an example, nearly five years after Storm Dennis, residents continue to be at risk and options are still being considered. How can we now progress so that there is a resolution?
8. Two coal tips have now slipped because of more extreme weather, one in my region in 2020, and one in another region this week. Many communities that I represent live in the shadow on these tips, many of which are Category D, and are terrified that another Aberfan may happen again. What work is now being done to assess all coal tips following Storm Bert, and what assurances can be provided to these communities? Will you now be seeking urgent additional funding from the UK Government to ensure all coal tips are made safe?

I'm grateful that you've agreed to meet with me next week and I look forward to being able to discuss these matters with you directly.

Regards,



Heledd Fychan MS

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Seilwaith

19 Tachwedd 2024

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Annwyl Llyr,

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru). Gwnaeth y Pwyllgor Busnes gytuno mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Rwy'n amgáu papur y Gweinidog i chi ei ystyried. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i ni yn amlinellu eich barn am yr amserlen erbyn canol dydd ddydd Gwener 29 Tachwedd. Cofiwch fod y papur yn un preifat: ni ddylid ei gyhoeddi na'i rannu â neb ond aelodau'r pwyllgor.

Cofion gorau,

The Rt Hon. Elin Jones MS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

27 Tachwedd 2024

Annwyl Elin,

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): amserlen graffu

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd 2024 yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar amserlen arfaethedig y gwaith o graffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen arfaethedig yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2024. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r dyddiad cau o ran yr adroddiad Cyfnod 1, sef 4 Ebrill 2025 a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2, sef 13 Mehefin 2025.

Fel yr wyf wedi'i ddweud mewn gohebiaeth flaenorol â'r Pwyllgor Busnes, mae llwyth gwaith deddfwriaethol y Pwyllgor am weddill cyfnod y Senedd hon yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno biliau ar Fasnachfreinio Bysiau ac ar Lywodraethu Amgylcheddol cyn diwedd cyfnod y Senedd hon. Byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes wneud popeth o fewn ei allu i osgoi sefyllfa lle gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar fwy nag un Bil ar yr un pryd. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i atgoffa'r Pwyllgor Busnes y bydd y llwyth gwaith deddfwriaethol yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Pwyllgor i graffu ar bolisi yn ystod gweddill cyfnod y Senedd hon.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0354/24

Llŷr Gruffudd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Tachwedd 2024

Annwyl Llŷr

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon), wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU). Mae'r cyntaf yn ymwneud ag ehangu'r cynllun i gynnwys y sector morol domestig, ac mae'r ail yn rhoi rhagor o fanylion ar gynigion i gydnabod dulliau cludiant heblaw piblinellau (NPT), h.y. morgludiant, cludiant ar ffyrdd neu reilffyrdd ar gyfer symud carbon wedi'i ddal i storfa ddaearegol. Yn ogystal, mae Ymateb cychwynnol gan yr Awdurdod yn cael ei gyhoeddi ynghylch trin dyraniadau am ddim a'r diffiniad o derfynu gweithgarwch yn barhaol yn y cynllun.

Ym mis Gorffennaf 2023 cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i gynnwys y sector morol domestig yn y cynllun o 2026. Bydd hyn yn dechrau gyda throthwy llong o 5000GT, er bod ymrwymiad i ailasesu'r trothwy hwn erbyn 2026. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y bydd yr ehangiad hwn yn cael ei weithredu, gan roi eglurder i sbarduno buddsoddiad mewn datgarboneiddio.

Daw'r ymgynghoriad ar NPT yn dilyn cyhoeddiad yr Awdurdod, hefyd fis Gorffennaf diwethaf, ei fod yn bwriadu cydnabod dulliau NPT o gludo CO₂. Bydd cydnabod hyn o fewn ETS y DU yn sicrhau y gall gweithredwyr sy'n cludo CO₂ i'w storio ddi-dynnu'r swm y maent yn ei anfon i'w storio o'u hallyriadau adroddadwy, gan ddarparu cymorth economaidd i safleoedd diwydiannol heb fynediad at biblinellau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol i ddiwydiant yng Nghymru heb opsiynau storio addas, fel Clwstwr Diwydiannol De Cymru. Nod yr ymgynghoriad hwn yw darparu rhagor o fanylion ac ymgynghori ar y fframwaith rheoleiddio sydd ei angen i gydnabod a gweithredu NPT yn yr ETS.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 12
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr Awdurdod, ynghyd â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt i gasglu barn i gefnogi penderfyniadau terfynol ar sut y bydd ETS y DU yn cael ei ehangu. Bydd y diwygiadau hyn i ETS y DU yn gofyn am ddiwygiadau i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, felly bydd y Senedd, ynghyd â Seneddau eraill y DU yn cael cyfle i graffu ar gynlluniau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Mae ymateb cychwynnol yr Awdurdod yn dilyn cynigion i wneud dau newid technegol i reolau dyraniadau am ddim yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Mae un yn ymwneud â thrin terfyniadau parhaol ac mae'r llall yn egluro'r diffiniad o derfyniad parhaol. Mae dyraniadau am ddim yn lwfansau a ddarperir am ddim i ddiwydiannau sydd â chystadleuwyr byd-eang o wledydd sydd â pholisïau hinsawdd llai uchelgeisiol. Dyraniadau am ddim ar hyn o bryd yw'r prif ysgogydd polisi ar gyfer lliniaru ar ddadleoli carbon.

O dan y rheolau cyfredol, pan fydd gweithgarwch yn dod i ben yn barhaol, mae gweithredwyr yn cadw dyraniadau am ddim yr oedd ganddynt hawl iddynt yn ystod y flwyddyn olaf y buont yn gweithredu ynddi. Fodd bynnag, cyfrifir lefelau dyraniadau am ddim yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch cyfartalog yn ystod y 5 mlynedd flaenorol. Felly, gall y rheolau hyn arwain at rai gweithredwyr yn cael mwy o lwfansau yn eu blwyddyn olaf na'r hyn sy'n ofynnol i liniaru ar ddadleoli carbon, ac mewn rhai achosion, mwy na'r allyriadau a adroddwyd ganddynt. Bydd y rheolau newydd yn newid hyn fel y byddai lefel y lwfansau a roddir yn y flwyddyn olaf o weithredu yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn olaf honno. Bydd eithriad i'r rheol newydd ar waith ar gyfer pan gweithgarwch yn dod i ben at ddibenion datgarboneiddio e.e. gosod technoleg newydd. Felly, bydd cyfranogwyr sy'n cau ar gyfer datgarboneiddio yn gallu cadw'r hawl iawn i ddyraniadau am ddim, yn amodol ar ddarparu digon o dystiolaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnal cymhelliant y cynllun i ddatgarboneiddio. Bydd y newidiadau hyn i'r rheolau yn gofyn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a fydd yn cael eu gwneud yng Ngorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025. Ar hyn o bryd bwriedir ei osod yn y Senedd ym mis Rhagfyr 2024, gyda'r dyddiad dod i rym ym mis Chwefror 2025.

Mae ETS y DU yn parhau i fod yn ysgogiad polisi pwysig iawn yng Nghymru, gan ddarparu arwydd hanfodol o fuddsoddi yn y datgarboneiddio sydd ei angen i gyflawni ein nodau Sero Net. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn yr ymgynghoriadau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd ati i ehangu'r cynllun, gan gynyddu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd wedi'u cynnwys o dan ei gap allyriadau yn y pen draw. Bydd gwneud y newidiadau i reolau dyraniadau am ddim hefyd yn gwella tegwch a thargedu dyraniadau am ddim yn y cynllun, gan sicrhau y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfranogwyr sydd ei angen fwyaf. Rwy'n disgwyl ysgrifennu eto ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriadau a'r cynigion polisi pellach yn ystod y misoedd nesaf. Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Tel: 0300 201 1113



Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Great British Energy

Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Crynodeb

Cafodd Bil Great British Energy ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Gorffennaf 2024. Mae rhai elfennau o'r Bil yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ac ar 8 Awst 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('LCM') ar gyfer Bil Great British Energy gerbron Senedd Cymru.

Atgyfeiriwyd yr LCM at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda 15 Tachwedd 2024 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd amdano. Newidiwyd hwnnw i 10 Ionawr 2025.

Bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn ystyried yr LCM yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024 a gosodwyd ei adroddiad ar yr LCM ar 21 Hydref. Y ddogfen hon yw'n hymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Cynnwys

1. Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor3

1. Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor

Cododd adroddiad y Pwyllgor nifer o gwestiynau a drafodir yma.

1. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gwybod beth sydd wedi cael ei drafod gyda Llywodraeth y DU.

Rwyf eisoes wedi datgan ein bod o blaid deddfwriaeth i sefydlu Great British Energy i helpu i hwyluso ac annog datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Tynnodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd, sylw at ein barn y byddai angen ein caniatâd ar gyfer y ddeddfwriaeth ond bod yr Ysgrifennydd yn niwtral ei farn o safbwynt gwneud argymhellion i Senedd Cymru nes bod rhagor o drafod wedi bod.

Mae'r Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth cul ei gwmpas sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi, statws, llywodraethu, amcanion, cyfeiriad strategol ac atebolrwydd Great British Energy (GBE). Cefais gyfarfod â Michael Shanks, y Gweinidog sy'n tywys y Bil yn yr Adran Diogeled Ynni a Sero Net, ar 24 Hydref ac eto ar 13 Tachwedd. Ffocws ein trafodaethau oedd y gwelliannau a oedd eu hangen i'r Bil a materion nad ydynt yn rhan o'r ddeddfwriaeth ond sy'n ymwneud â sut y gallwn weithio mewn partneriaeth yn y dyfodol pan fydd GBE yn weithredol.

Rwyf wedi rhoi isod yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil ei hun ac am y trafodaethau hyd yma ynghylch sut y gallai GBE weithio gyda'n cwmni ynni ni Trydan Gwyrdd a chydag Ynni Cymru.

2. Tynnodd adroddiad y Pwyllgor ein sylw at bryderon am effaith bosibl GBE ar Trydan Gwyrdd Cymru a'r posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer dynodi cwmni GBE ac yn pennu ei amcanion. Mae GBE wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd ac mae trafodaethau ynghylch sut y byddaf yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, drwy Drydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru, yn mynd rhagddynt.

Dydy'r Bil ei hun ddim yn effeithio ar waith Trydan Gwyrdd Cymru. Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn fwy datblygedig na Great British Energy. Rwy'n gweld cyfleoedd i Trydan Gwyrdd Cymru gynyddu ei gwmpas gweithredol drwy gydweithio gydag Great British Energy. Bydd hynny'n help i osgoi unrhyw ddyblygu. Rwyf wedi cael trafodaethau cadarnhaol am Trydan Gwyrdd Cymru ac rwy'n disgwyl iddynt barhau wrth i'r syniadau ynghylch GBE barhau i ddatblygu.

3. Gofynnodd adroddiad y Pwyllgor am gael gwybod am unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng cylch gwaith, nodau a gweithrediad GBE a rhai Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru

Nid wyf yn credu bod yna orgyffwrdd. Mae Ynni Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru yn sefydliadau a rhaglenni a all helpu i gynnal prosiectau yng Nghymru drwy gydweithio â GB Energy.

4. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gwybod hefyd sut y gellid sicrhau y caiff Senedd Cymru gyfle i graffu ar y Datganiad Blaenoriaethau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol .

Mae cymal 5 y Bil yn datgan bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer GB Energy. Cyn gwneud datganiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes gofyn deddfwriaethol penodol i graffu ar y Datganiad o Flaenoriaethau Strategol wrth i'r datganiad gael ei baratoi gan Lywodraeth y DU, rhagor na'r craffu fydd yn digwydd yn ystod taith y Bil.

5. Mynegodd y Pwyllgor ei bryderon mai'r unig ofyn ar yr Ysgrifennydd Gwladol fydd ymgynghori â Gweinidogion Cymru, yn hytrach na cheisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig.

Mae'n hanfodol bod cyfrifoldebau datganoledig yn cael y sylw priodol wrth lywodraethu GB Energy, ac rwy'n parhau i drafod y ffordd orau o sicrhau y gwneir hynny. Rwyf wedi ysgrifennu ar y mater hwn a'i drafod gyda Gweinidogion y DU ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon